RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 22 Chwefror 2024 am 3.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd W Lewis (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd L A Tomkinson
Y Cynghorydd R Williams

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Cynllunio a Datblygu canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd A Dennis

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Cook
Y Cynghorydd R Davis
Y Cynghorydd S Evans

## 204 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriad am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Emanuel, S Rees a M Powell.

## 205 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

## 206 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol

eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**207 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**208 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 25.01.24 yn rhai cywir.

**209 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei thrafod mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**210 CAIS RHIF: 23/0404**

**Newid defnydd garej i salon trin gwallt. 34 STRYD DAVIS, ABERAMAN, ABERDÂR, CF44 6UR**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Evans, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei phryderon ynglŷn â'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**211 CAIS RHIF: 23/1335**

**Tystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer newid defnydd arfaethedig o annedd C3(a) i Gartref Preswyl i Blant C2 ar gyfer hyd at 2 o blant. 134 HEOL TURBERVILLE, PORTH, CF39 0ND**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Davis, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gwrthwynebiad a'i phryderon ynglŷn â'r dystysgrif cyfreithlondeb arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth, penderfynodd Aelodau wrthod cymeradwyo'r dystysgrif cyfreithlondeb a hynny gan fod Aelodau o'r farn y byddai'r newid arfaethedig yn cyfrif fel newid defnydd sylweddol gan y bydd yn gweithredu fel busnes 24 awr y dydd yn hytrach na chartref, gyda staff yn gweithio sifftiau yn yr eiddo.

O ganlyniad i hynny, cafodd y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan Gyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â dod i benderfyniad sy'n mynd yn groes i argymhelliad Swyddog, neu unrhyw reswm dros ddod i benderfyniad o'r fath ar sail cynllun arfaethedig neu gynllun posibl.

**212 CAIS RHIF: 23/0549**

**Gosod pont newydd. (Derbyniwyd Adroddiad Dyfrgwn ar 20/07/23) (Derbyniwyd Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol newydd, Arolygon Ystlumod, Arolwg Rhywogaethau Goresgynnol, Asesiad Coed Lefel y Tir Rhagarweiniol ac Asesiad o'r Effaith ar Goedyddiaeth ar 24/01/24) PONT Y BIBELL GLUDO ODDI AR Y DRAMFFORDD, TREHARRIS, CF46 5EF**

Amlinellodd y Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n nodi nad oes unrhyw bryderon ynglŷn â'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**213 CAIS RHIF: 23/1019**

**Datblygu adeilad rhestredig yn 5 annedd breswyl. HEN STABLAU, HEOL TŶ ABERAMAN, ABERAMAN, ABERDÂR**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio / Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais i'r Pwyllgor, ac yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** y byddai'r penderfyniad mewn perthynas â'r cais yn cael ei ohirio a bydd yn cael ei drafod yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol, a hynny er mwyn rhoi cyfle i Swyddogion ddarparu rhagor o wybodaeth.

**214 CAIS RHIF: 23/1281**

**Estyniad llawr cyntaf i greu swyddfa ychwanegol (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 14/12/2023). SBM CAR SALES, YR HEOL FAWR, TON-TEG, PONTYPRIDD, CF38 1PW**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**215 CAIS RHIF: 24/0073**

**Paneli solar ar do adeilad pad sblasio. PARC ABERDÂR, HEOL GLAN, GADLYS, ABERDÂR**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**216 CAIS RHIF: 23/0679**

**Newid defnydd o lety gwely a brecwast i Dŷ Amlfeddiannaeth (HMO) ag 11 ystafell wely (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 01/12/2023) Tŷ Llety Central House, Bryn Stow, Trefforest, Pontypridd, CF37 1RZ**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 25 Ionawr 2024, pan wrthododd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad Swyddogion. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais, a hynny'n groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, oherwydd y rhesymau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad pellach.

**217 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd, Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 29/01/2024 – 09/02/2024.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm**

**Y Cynghorydd W Lewis**
**Cadeirydd.**